



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pwyllgor Dyngarol - diolch yn fawr am eich cyfraniadau at ymdrech y Pwyllgor Dyngarol i godi arian i blant yr Wcraïn. Rydym eisoes wedi llwyddo i gasglu £1,200. Mi fyddwn yn cadw'r gronfa ar agor tan ddydd Llun, Mawrth 28ain.

Achosion Covid ar gynydd yn yr ysgol – rydym wedi cael 40 achos positif o covid-19 ers dechrau'r wythnos hon ac mae hyn wedi effeithio ar bob blwyddyn addysgol o'r Meithrin i Flwyddyn 6. Hoffwn atgoffa rhieni / gwarcheidwaid i beidio danfon plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws.

Cerddorfa'r ysgol, rhag-wrandawriad ar gyfer Eisteddfod yr Urdd – mi fydd y beirniad yn ymweld â'r ysgol ar ddydd Gwener, Ebrill 1af er mwyn gwrandao ar y gerddorfa – cofiwch eich offerynnau.

Clwb yr Urdd - yn parhau ar nos Fercher, 3.30 – 4.30yp
Mawrth 30ain Bl 2, 5 a 6
Ebrill 6ed – Bl 1, 3 a 4

Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – hoffwn ddymuno'n dda i bawb fydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion ar ddydd Sadwrn, Mawrth 26ain ym Mhonrhydfendigaid. Mi fydd y bws ar gyfer y côr a'r parti llefaru yn gadael yr Ysgol Gymraeg am **5 o'r gloch** ac yn dychwelyd **erbyn 6.45**. Ni fydd cynulleidfa ym Mhonrhydfendigaid. Cofiwch sgidiau a throwsus du, crys chwys coch yr ysgol a chrys polo gwyn oddi tano.

Noson Agored – cofiwch fod yna gyfle i chi drafod datblygiad addysgol a chymdeithasol eich plentyn gyda'r athro / athrawes ar nos Lun, Ebrill 4ydd neu nos Fawrth, Ebrill 5ed. Mae'r drefn ar gyfer gwneud apwyntiad wedi eich cyrraedd eisoes dros e-bost.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams,, Pennaeth, 24/03/2022

***Humanitarian Committee** - thank you very much for your contributions to the Humanitarian Committee's effort to raise money for the children of the Ukraine. We have already managed to raise £1,200. We will be keeping the fund open until Monday, March 28th.*

***Covid cases on the increase in the school** - we have had 40 positive cases of covid-19 since the beginning of this week and this has affected every educational year from Nursery to Year 6. I would like to remind parents / guardians not to send children to the school if they show any symptoms of coronavirus.*

***School orchestra, preliminary audition for the Urdd Eisteddfod** - the judge will be visiting the school on Friday, April 1st to listen to the orchestra-please remember your instruments.*

Urdd Club - continues on Wednesdays, 3.30 - 4.30pm
March 30th Year 2, 5 and 6
April 6th - Years 1, 3 and 4

***Ceredigion Urdd Eisteddfod** - I would like to wish everyone who will representing the school the best of luck at the Ceredigion Urdd Eisteddfod on Saturday, March 26th at Ponrhydfendigaid. The bus for the choir and the recitation party will leave the school at 5 o'clock and return by 6.45pm. There will be no audience at Ponrhydfendigaid. Remember to wear black shoes and trousers, the school red sweatshirt and white poloshirt underneath.*

If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher, 24/03/2022